



Calopteryx splendens (Tristan Hatton-Ellis, CNC)

Dyfroedd Byw i Gymru

gwybodaeth ategol ar gyfer
ymgyngoriad Heriau a Dewisiadau Cymru

Cyflwyniad

Mae dalgylchoedd iach yn darparu dŵr glân i'w yfed, ar gyfer amaethyddiaeth ac ar gyfer diwydiant; maent yn amddiffyn eiddo a phobl rhag risg llifogydd ac erydu arfordirol; maent yn cynnig cyfleoedd hamdden ac yn cynnal twristiaeth; maent yn darparu cynefin i bysgod, mathau eraill o fywyd gwyllt, a phlanhigion; maent yn gwneud Cymru'n lle gwell i fyw ac i weithio heddiw ac i genedlaethau'r dyfodol.

Mae adfer ein hamgylchedd dŵr a diogelu'r gwasanaethau ecosystem a ddarperir ganddo i bobl Cymru ymhlith blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn arwain y gwaith hwn drwy ddefnyddio dull ecosystem integredig o reoli tir, dŵr ac adnoddau byw er mwyn defnyddio'r amgylchedd naturiol mewn modd cynaliadwy.

Mae creu CNC yn gyfle i adolygu ein dull o gyflenwi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru. Mae'r fersiwn hon o ddogfen Dyfroedd Byw i Gymru wedi'i diweddarau yn dechrau egluro'r ffordd y bwriadwn ddefnyddio dull ecosystem o gyflenwi gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac adfer dalgylchoedd a'r amgylchedd dŵr cysylltiedig.

Nid cyflenwi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn unig mo'n nod, ond integreiddio'r gwaith o gynllunio a chyflenwi amcanion ar gyfer Ardaloedd Gwarchoddedig – sef y safleoedd a'r amcanion hynny a ddynodwyd dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd arall (e.e. y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar, Dyfroedd Ymdrochi, Nitradau, Dyfroedd Pysgod Cregyn, Pysgod Dŵr Croyw, Dŵr Gwastraff Trefol, Dŵr Yfed Erthygl 7). Er enghraifft, mae'r camau sy'n ofynnol i gyflawni statws cadwraeth ffafriol dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, neu wella ansawdd dyfroedd ymdrochi, neu leihau costau trin dŵr yfed, yr un fath weithiau â'r camau sy'n ofynnol i fodloni Statws Ecolegol Da'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, neu'n eu hategu. Byddwn hefyd yn anelu at gydlynu a chysylltu'r gwaith o gynllunio a chyflenwi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr â'n gwaith i weithredu'r Gyfarwyddeb Llifogydd.

Sut bydd gwelliannau cynaliadwy'n cael eu sicrhau?

Bydd CNC yn gweithio gydag eraill i ymgorffori'r dull ecosystem a rheoli dalgylchoedd mewn modd integredig. Bydd hyn yn diogelu'r gwasanaethau a ddarperir gan ecosystemau dyfrol iach ac yn sicrhau gwell buddion i bobl a bywyd gwyllt Cymru.

Mae CNC yn cyflenwi rhaglen barhaus o ymchwiliadau i nodi'r rhesymau pam y mae ardaloedd dyfrol yn methu â bodloni eu hamcanion, ac yn datblygu gwybodaeth i ddeall yn well y pwysau allweddol sy'n bygwth ein hecosystemau, fel rhywogaethau anffordorol ymledol. Gweithiwn gyda chyd-gyflenwyr i sicrhau bod ein sail dystiolaeth yn gadarn a'n bod yn datblygu ac yn targedu atebion cost-effeithiol.

Rhaid inni oll gymryd camau i wella'r amgylchedd dŵr yng Nghymru. Rhaid i reolwyr tir, ffermydd, busnesau, diwydiant, cwmnïau dŵr, awdurdodau lleol, cynllunwyr, cyrff llywodraethol, sefydliadau anllywodraethol, ac unigolion ymrwymo i newid yn sylfaenol ein perthynas â dŵr a'n perthynas â'r amgylchedd a gynhelir ganddo.

Os oes modd, bydd y mecanweithiau presennol yn sicrhau gwelliannau. Er enghraifft, mae ein rhaglen Adfer Tynnu Dŵr Cynaliadwy yn nodi effaith tyniadau ar amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac yn mynd i'r afael â hi. Mae gofyn i Awdurdodau Cyhoeddus ystyried mesurau ac amcanion yn y Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Golyga hyn eu gwreiddio mewn rhaglenni gwaith strategol a gweithredol.

Bydd yn cymryd degawdau i adfer yr amgylchedd dŵr yng Nghymru; mae angen inni fonitro ein cynnydd yn rheolaidd a rhoi gwybod amdano. I wneud hyn, cyhoeddwn adroddiad blynyddol am gyflwr yr amgylchedd dŵr.

Beth yw Dyfroedd Byw i Gymru?

Amserwyd dyddiad rhyddhau'r fersiwn hon o ddogfen Dyfroedd Byw i Gymru i gefnogi ymgynghoriad 'Heriau a Dewisiadau' ar y Materion Rheoli Dŵr Arwyddocaol i dair Ardal Basn Afon y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yng Nghymru (h.y. Gorllewin Cymru, Dyfrdwy a Hafren) ar 22 Mehefin 2013.

Dogfen 'fyw' a ddiweddarir yn rheolaidd yw Dyfroedd Byw i Gymru. Fe'i datblygwyd gyda chyfraniadau gan aelodau o baneli cyswllt Ardaloedd Basn Afon Cymru a fforwm Llywodraeth Cymru ar gyfer rhanddeiliaid y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, a chaiff ei llywio gan Gynllun Busnes cyntaf CNC, sy'n amlinellu'r blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg ar gyfer ein Cynllun Corfforaethol cyntaf.

Dechreuau'r fersiwn hon drwy grynhoi data 'rhesymau dros fethu' y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr wedi'i ddiweddarau o'n rhaglen ymchwiliadau barhaus. Mae'n rhoi gwybod am y mesurau strategol a lleol i fynd i'r afael â'r 10 prif reswm dros fethu. Daw i gasgliad drwy gyflwyno mapiau sy'n amlygu'r berthynas ofodol rhwng ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ac Ardaloedd Gwarchodedig, ac mae'n crynhoi'r gofynion ar gyfer y Gyfarwyddeb Llifogydd.

Nid yw dogfen Dyfroedd Byw i Gymru'n rhan o'r ymgynghoriad ffurfiol.

Beth nesaf?

Cyfrannwch at wneud ail gylch y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn fwy uchelgeisiol, a throwch ein huchelgais cyffredin yn gamau gweithredu cyfunol.

Gallwch ymateb i ymgynghoriadau Heriau a Dewisiadau drwy ein gwefan:

<http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/consultations/list-of-current-consultations/?lang=en>

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen hon neu'r ymgynghoriad, anfonwch e-bost i:

jill.brown@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Neu gallwch gysylltu â'n Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 065 3001.


Pa wybodaeth sy'n cael ei darparu yn nogfen Dyfroedd Byw i Gymru?

Byddwn yn adnewyddu gwybodaeth yn y ddogfen hon wrth i gynnydd gael ei wneud o ran datblygu ein sail dystiolaeth a sicrhau gwelliannau amgylcheddol.

Trosolwg o'r prif faterion sy'n effeithio ar ecosystemau dyfrol yng Nghymru Mae'r wybodaeth hon yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o'n hymchwiliadau Rhesymau dros Fethu (Chwefror 2013).	Tudalen 5
Crynodebau ar gyfer y 10 prif fater i gyd. Mae pob tudalen yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none">• disgrifiad o'r mater, gan gynnwys y ganran o ardaloedd dyfrol sy'n methu yr effeithiwyd arnynt• map sy'n dangos yr ardaloedd dyfrol sy'n methu yr effeithiodd y mater arnynt• gweledigaeth ar gyfer sicrhau gwelliannau cynaliadwy• yr atebion lleol a strategol a rolau gwahanol sefydliadau• faint o gynnydd y gellir ei wneud, yn ein barn ni, o ran sicrhau atebion a gwelliannau erbyn 2015.	Tudalen 6 i 16
Trosolwg o Ardaloedd Gwarchoddedig a'r Gyfarwyddeb Llifogydd.	Tudalen 17 i 23

Rhesymau dros Fethu yng Nghymru

Mae 63% (672 o 1075) o ardaloedd dyfrol yn methu
- gall fod nifer o resymau dros fethiant ardal ddyfrol



Mae'r crynodeb hwn yn seiliedig ar ddata o fis Chwefror 2013. Mae'n cynnwys data Rhesymau dros Fethu o 2009 ymlaen ar gyfer pob math o ardal ddyfrol (h.y. afonydd, llynnoedd, dŵr trosiannol, dyfroedd arfordirol a dŵr daear).

- Mae'n gymhleth pennu **statws ardal ddyfrol** a rhesymau dros fethu, ac mae'n dealltwriaeth yn newid drwy amser. Mae hyd yn oed niferoedd a ffiniau ardaloedd dyfrol yn newid wrth inni ddysgu mwy.
- Rydym yn monitro gwahanol **'elfennau'** (e.e. pysgod) ar gyfer gwahanol ardaloedd dyfrol. Pan fydd **'sgôr'** elfen yn is na'r disgwyl, mae'r elfen honno'n achosi i'r ardal ddyfrol fethu.
- Wedyn casglwn **dystiolaeth** i bennu pam mae'r elfen yn methu – sef y 'Rhesymau dros Fethu'. Gall ardal ddyfrol fethu am fwy nag un elfen, a gall elfen fethu am fwy nag un rheswm.
- Mae ein lefel o ddealltwriaeth yn pennu ein **sicrwydd** am Reswm dros Fethu: 'Cadarnhawyd' = tystiolaeth rymus, 'Tebygol' = tystiolaeth resymol. 'Amheus' = tystiolaeth awgrymog.
- Rydym yn hefyd yn ystyried pa mor **ddifrifol** yw'r Rheswm dros Fethu – a ydym yn credu ei fod yn cael effaith fawr neu fach ar yr elfen sy'n methu.
- **Mae'r ffigur hwn yn cynnwys categori am 'ymchwiliadau parhaus' a data am bob lefel o sicrwydd a difrifoldeb. Mae'n cynnwys ychydig o ddata am ardaloedd dyfrol arfordirol /trosiannol. Mae'n rhoi trosolwg cyffredinol o'r materion sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr yng Nghymru.**

Datganiadau hawlfraint

© Crown Copyright and database right 2013. Ordnance Survey licence number 100019741. © Hawlfraint a hawliau cronfa ddata'r Goron 2013. Rhif trwydded yr Arolwg Ordnans 100019741


© Natural Resources Wales copyright and/or database right 2013. All rights reserved © Hawlfraint a/neu hawl cronfa wybodaeth Cyfoeth Naturiol Cymru 2013. Cedwir pob hawl.

© Database Right/Copyright NERC – Centre for Ecology & Hydrology. © Hawlfraint a/neu hawl cronfa wybodaeth NERC – y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg.


1. Mwyngloddiau segur a thir halogedig

Mae bron 15% o fethiannau'n gysylltiedig â llygredd gwasgaredig a llygredd yn y tarddle o fwyngloddiau segur a thir halogedig.

Map o fethiannau dŵr wyneb



Methiannau dŵr daear



Beth ydym am ei gyflawni?

Hoffem liniaru effeithiau tir halogedig a mwyngloddiau segur ar yr amgylchedd dŵr drwy raglen waith strategol ledled Cymru. Bydd yn cymryd degawdau i fynd i'r afael â'r holl faterion a byddwn yn rhoi blaenoriaeth i gamau sy'n sicrhau'r canlyniadau ecolegol, cymdeithasol ac economaidd gorau am fuddsoddiad y gymdeithas.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae'r Awdurdod Glo'n cyflenwi'r rhaglen adfer ac atal dŵr pyllau glo.

- Mae CNC yn gweithio gyda sefydliadau'r trydydd sector i gyflenwi rhaglenni adfer ar raddfa fechan, ac i ddarparu canllawiau atal llygredd ar gyfer mwyngloddiau segur i dirfeddianwyr a defnyddwyr.
- Mae CNC a'r Awdurdod Glo'n cydweithio i gyflenwi prosiectau adfer mewn safleoedd â blaenoriaeth.
- Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol a datblygwyr yn sicrhau bod risgiau halogi tir i ddyfroedd daear yn cael eu lliniaru a bod camau adfer yn cael eu cymryd lle mae eu hangen.
- Mae CNC yn rhoi cymorth a chyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol mewn fforymau tir halogedig ardal.

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae CNC yn datblygu canllawiau atal llygredd ar gyfer mwyngloddiau segur.
- Mae CNC yn cyflenwi'r Strategaeth Mwyngloddiau Metel i Gymru, sy'n nodi safleoedd â blaenoriaeth ar gyfer adfer ac sy'n datblygu cynigion i sicrhau cyllid.
- Mae'r Awdurdod Glo a CNC yn gweithio mewn partneriaeth i gyflenwi'r rhaglenni mwyngloddiau heblaw pyllau glo.
- Mae CNC yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd a phartneriaid academiaidd i ddatblygu technegau adfer cynaliadwy.
- Mae CNC yn hwyluso Gweithgor Halogi Tir Cymru i ddatblygu a lledaenu canllawiau arfer gorau a hyfforddiant.


Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Bydd dau gynllun adfer dŵr mwyngloddiau'n cael eu cyflenwi, a gwneir gwelliannau i gynllun presennol i atal gwaethygiad.
- Erbyn 2015 bydd y Strategaeth Mwyngloddiau Metel i Gymru wedi'i diweddarau er mwyn gosod uchelgais adfer y dyfodol ar gyfer yr 2il Gynlluniau Rheoli Basn Afon.

2. Llygredd Amaethyddol

Mae tua 14% o fethiannau'n gysylltiedig â gweithgareddau amaethyddol, gan gynnwys sathru gan dda byw, erydu glannau afon a chaeau, dŵr ffo o gaeau â'r a glaswelltir, llwybrau a buarth y fferm, a rheolaeth wael ar fiswail.

Map o fethiannau dŵr wyneb



Methiannau dŵr daear



Pa ganlyniad sydd angen inni ei sicrhau?

Mae arnom eisiau cryfhau mecanweithiau rheoleiddiol, ariannol a gweithredol sy'n cynnal sector amaethyddiaeth cynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd dŵr ac yn helpu i gyflenwi'r ystod lawn o wasanaethau ecosystem sy'n darparu buddion ariannol, cymdeithasol ac ecolegol i Gymru.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae CNC ac Arolygiaeth Wledig Cymru'n cydweithio i gynnal ymweliadau â ffermydd a dargedir.
- Mae CNC, Cyswllt Ffermio, Undebau Ffermio a Sefydliadau Trydydd Sector yn cyflenwi ymgyrchoedd cynghori lleol a dargedir i hyrwyddo

arferion rheoli tir da gan gynnwys: rheoli biswail yn well, creu lleiniau clustogi torlannol a chanol llethr, rheoli stoc yn well, adfer coetiroedd a chreu gwlypdiroedd.

- Mae CNC yn ymateb i achosion o lygredd ac yn cymryd camau rheoleiddio angenrheidiol (e.e. cydymffurfio â'r Rheoliadau Silwair, Biswail ac Olew Tanwydd Amaethyddol a'r Parthau Perygl Nitradau).

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar ddiwygio Polisi Amaethyddol Cyffredin a nodi cyfleoedd sy'n codi o newidiadau posibl i drawsgydymffurfio.
- Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi ymyriadau a fydd yn caniatáu i'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf gefnogi amaethyddiaeth gynaliadwy a gwella'r amgylchedd dŵr.
- Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ystyried sut gallai 'rheolau rhwymedigol cyffredinol' helpu'r sector amaethyddiaeth i fabwysiadu arferion rheoli tir cynaliadwy sy'n gwarchod yr amgylchedd dŵr.
- Mae CNC yn gweithio gyda Gwarant Fferm a phrynwyr allweddol i ddatblygu Systemau Rheoli Amgylcheddol i ffermydd.
- Mae CNC yn datblygu cyngor a chanllawiau i leihau effeithiau llwybrau fferm a sathru gan dda byw.
- Mae Undebau Ffermio, CNC ac eraill yn datblygu dull cydgysylltiedig o gyflenwi ymgyrchoedd cyngor.
- Mae Llywodraeth Cymru'n targedu mentrau Glastir i gyflenwi gwelliannau mewn ardaloedd dyfrol sy'n methu.


Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Bydd y sector amaethyddol yn deall yn well effaith ei weithgareddau ar yr amgylchedd dŵr ac yn manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno atebion.
- Bydd rheolwyr tir gwledig wedi'u cymell i gyflenwi'r ystod lawn o wasanaethau ecosystem (e.e. dŵr glân, llai o risg llifogydd, cynefin i bysgod a bywyd gwylt) mewn cysylltiad ag amaethyddiaeth gynaliadwy ac amgylcheddau dŵr iachus.
- Bydd targed Llywodraeth Cymru o greu 5,000ha y flwyddyn o goetir yn cael ei gysoni i gefnogi rheolaeth strategol ar goetiroedd sydd o fudd i'r amgylchedd dŵr ac sy'n cyflenwi gwasanaethau ecosystem.

3. Rhwystrau artiffisial rhag pysgod yn mudo

Mae bron 12% o fethiannau'n gysylltiedig ag addasiadau ffisegol i afonydd, fel coredu, sylfeini pontydd a cheuffosydd sy'n ymyrryd â llwybrau mudo pysgod a llysywod.

Map o fethiannau dŵr wyneb



Beth ydym am ei gyflawni?

Hoffem waredu strwythurau artiffisial sy'n rhwystro pysgod rhag mudo ar hyd afonydd a nentydd, o'r tarddiad i'r môr. Lle ystyrir ei bod yn rhy ddrud neu amhriodol gwaredu strwythur, mae arnom eisiau gosod atebion teithio pysgod sy'n helpu i liniaru'r effeithiau.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae CNC a Sefydliadau Trydydd Sector, fel yr Ymddiriedolaethau Afonydd a chlybiau genweirio, yn cydweithio i nodi a blaenoriaethu rhwystrau i'w gwaredu neu atebion teithio pysgod.
- Mae CNC yn gweithredu Offeryn Statudol Rheoliadau Llysywod (Cymru a Lloegr) 2009, sy'n gwneud atebion sgrinio a theithio

llysywod yn ofynnol ar gyfer asedau sy'n eiddo cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys croniadau a thyniadau, ledled Cymru.

- Mae CNC yn gweithio gyda datblygwyr Pŵer Trydan Dŵr i leihau effeithiau cynlluniau ar bysgod yn mudo ac i nodi cyfleoedd lle gall cynlluniau wella taith pysgod.
- Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn sicrhau bod ceisiadau cynllunio sy'n cynnwys croniadau, fel cynigion Pŵer Trydan Dŵr, yn ystyried y Gyfarwydeb Fframwaith Dŵr a deddfwriaeth berthnasol arall.

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae CNC yn blaenoriaethu ei asedau, fel gorsafoedd mesur llif a cheuffosydd, sy'n rhwystro pysgod neu llysywod rhag mudo ac mae'n cynnig atebion drwy raglenni gwariant cyfalaf.
- Mae CNC yn nodi strwythurau di-berchennog sy'n rhwystro pysgod rhag mudo ac yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau cyllid i gynnig atebion.
- Byddai Rheoliadau Teithio Pysgod newydd sy'n cael eu trafod yn y Senedd yn rhoi pwerau ychwanegol i CNC, a chyfrifoldeb ychwanegol i eraill, i ddatrys problemau teithio pysgod ar strwythurau presennol a strwythurau newydd.


Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Bydd CNC ac Ymddiriedolaethau Afonydd yn cyflenwi rhaglen Eog at Yfory. Bydd CNC yn unig yn cyflenwi 24 o brosiectau gwella cynefin a thaith pysgod er mwyn gwella mynediad i fwy na 500km o afon.
- Bydd CNC yn cyflenwi atebion teithio (a sgrinio) llysywod mewn strwythurau â blaenoriaeth.
- Bydd partneriaid yn cydweithio i ddatblygu cynigion prosiect taith pysgod ar gyfer cylchoedd cyllido'r dyfodol.

4. Croniadau

Mae tuag 8% o fethiannau'n gysylltiedig â choredau ac argaeau sy'n cronni ac yn rheoleiddio llif afonydd. Gall y strwythurau hyn newid ffurf ffisegol sianel a glannau'r afon, a llifoedd afon, gan effeithio ar ardaloedd dyfrol i fyny ac i lawr yr afon.

Map o fethiannau dŵr wyneb



Beth ydym am ei gyflawni?

Mae angen inni sicrhau bod cronniadau a thyniadau cysylltiedig yn cael eu rheoli i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd dŵr. Mae angen inni leihau'r angen am groniadau newydd drwy ddefnyddio llai o ddŵr a sicrhau, lle maent yn ofynnol, fod eu heffeithiau amgylcheddol yn cael eu lleihau cymaint â phosibl.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae CNC yn gweithio gyda pherchenogion a gweithredwyr cronniadau i asesu effeithiau a mesurau lliniaru posibl fel: gwaredu strwythurau diangen, ailgreu strwythurau i ganiatáu patrymau cludo gwaddodion

mwy naturiol, newid patrymau rhyddhau dŵr i wella'r cynefin i lawr yr afon, ac adfer cynefin mewn sianel i lliniaru effeithiau cronniadau.

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae CNC a chwmnïau dŵr yn nodi cyfleoedd i waredu neu newid cronniadau ac addasu gweithrediadau i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd dŵr. Mae perchenogion a gweithredwyr cronniadau'n nodi camau i'w cymryd ac, os yw'n briodol, yn ceisio cyllid ar gyfer mesurau lliniaru (e.e. drwy gynlluniau rheoli asedau cwmnïau dŵr)

Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Bydd CNC wedi gweithio gyda pherchenogion cronniadau i nodi newidiadau posibl mewn strwythurau, a'u gweithredu, a bydd wedi asesu dichonolrwydd, costau a buddion y newidiadau a'u heffaith ar ddefnydd wrth eu rhoi ar waith.
- Bydd CNC wedi nodi lle mae ymchwiliad pellach yn ofynnol i asesu effeithiau amgylcheddol cronniadau a mesurau lliniaru posibl.

5. Arllwysiadau carthion

Mae tua 7% o fethiannau'n gysylltiedig â llygredd o arllwysiadau carthion. Mae llygredd organig a chemegol o arllwysiadau parhaus (e.e. gweithfeydd trin carthion) a gorlifoedd carthffosydd cyfunol (sy'n arllwys yn ystod glaw trwm) yn cyfrannu at y broblem hon.

Map o fethiannau dŵr wyneb



Beth ydym am ei gyflawni?

Mae pob system garthffosiaeth yn cael ei chynnal a'i gwella er mwyn iddi weithredu'n effeithiol ac er mwyn lleihau ei heffeithiau ar yr amgylchedd dŵr. Mae atebion i broblemau gorlif carthffosydd cyfunol sy'n ymgorffori cyflenwi gwasanaeth ecosystem wedi'u gwreiddio mewn cynlluniau datblygu cynaliadwy ledled Cymru (e.e. Dylunio Trefol Sensitif i Ddŵr). Cynyddir ymwybyddiaeth y cyhoedd er mwyn cyflwyno llai o sylweddau niweidiol (e.e. paent, olew, etc) i systemau carthffosiaeth.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae CNC, cwmnïau dŵr a deiliaid trwyddedau eraill yn cydweithio i sicrhau nad yw arllwysiadau'n cyfaddawdu amcanion ansawdd dŵr a

bod atebion yn helpu i gyflenwi gwasanaethau ecosystem sy'n dibynnu ar ansawdd dŵr.

- Mae CNC, Awdurdodau Lleol a chwmnïau dŵr yn gweithio gyda pherchentywyr a busnesau i fynd i'r afael â chamgysylltiadau sy'n rhyddhau dŵr gwastraff heb ei drin i'r amgylchedd.
- Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gweithio gyda CNC i sicrhau nad yw ceisiadau cynllunio'n effeithio'n negyddol ar ganlyniadau ansawdd dŵr gofynnol.
- Mae cwmnïau dŵr yn cymryd camau sy'n gwella arllwysiadau carthffrwd yn rhan o'u Rhaglenni Rheoli Asedau.
- Mae dulliau Dylunio Trefol Sensitif i Ddŵr yn lleihau dŵr ffo wyneb ac amlder a difrifoldeb y digwyddiadau gorlif carthffosydd cyfunol.

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae CNC yn sicrhau bod caniatâd arllwys yn cynnwys amodau sy'n gwarchod yr amgylchedd dŵr a'r gwasanaethau ecosystem cysylltiedig.
- Mae CNC yn gweithio gyda chwmnïau dŵr i sicrhau bod rhaglenni buddsoddi'n cyflwyno buddion amgylcheddol gofynnol.
- Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gweithio gyda chwmnïau dŵr a CNC i weithredu cynlluniau datblygu cynaliadwy sy'n rhoi cyfrif am bwysau carthffosiaeth.
- Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gweithio gyda datblygwyr, ymgymerwyr carthffosiaeth a CNC er mwyn i Gynlluniau Datblygu Lleol (CDLI) sicrhau bod digon o allu carthffos ac amgylcheddol i ddarparu ar gyfer datblygiad.
- Mae cwmnïau dŵr yn gweithio i ddatblygu a chynnig dewisiadau rheoli dalgylch sy'n gwella ansawdd dŵr ac sy'n cyflenwi gwasanaethau ecosystem ychwanegol.
- Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio i ddatblygu fframwaith rheoleiddiol sy'n annog atebion cynaliadwy, arloesol i reoli dŵr gwastraff.


Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Erbyn 2015 bydd cynlluniau rheoli asedau Dŵr Cymru Welsh Water a Severn Trent wedi gwella ansawdd y dŵr mewn 181km o afon a channoedd o km² o ddŵr arfordirol yng Nghymru.
- Bydd cynlluniau rheoli asedau 2015-20 yn cyflenwi canlyniadau ychwanegol y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr mewn perthynas ag arllwysiadau carthion.

6. Asideiddio

Mae tua 5% o fethiannau'n gysylltiedig â llygryddion asideiddio'n cyrraedd priddoedd sensitif. Mae coedwigo canopi caeedig a newidiadau i ddraeniad wedi cynyddu risg a maint yr effeithiau sy'n gysylltiedig ag asideiddio.

Map o fethiannau dŵr wyneb



Beth ydym am ei gyflawni?

Hoffem petai arferion defnydd tir yn cyfrannu at gynnydd cynaliadwy, tymor hir mewn pH dŵr mewn ardaloedd lle mae asideiddio'n cyfaddawdu prosesau ecolegol naturiol. Byddwn yn dal i reoleiddio allyriadau llygryddion asideiddio er mwyn adfer yr amgylchedd dŵr.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae CNC yn gosod terfynau priodol ar allyriadau aer o safleoedd y mae'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol yn ymdrin â hwy.
- Mae CNC yn gweithio gyda phartneriaid a Phrifysgolion i nodi safleoedd yr effeithiwyd arnynt ac i wneud gwaith monitro tymor hir i ddeall adferiad.
- Bydd CNC yn rheoli ei ddaliadau tir mewn modd sy'n cefnogi adferiad naturiol ardaloedd yr effeithiodd asideiddio arnynt.
- Bydd CNC ac Ymddiriedolaethau Afonydd yn adolygu ac yn mabwysiadu'r gwersi a ddysgwyd o'r adolygiad systematig ar effeithiolrwydd calchu i sicrhau bod ymyriadau felly'n cynnig gwelliannau amgylcheddol cynaliadwy.

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae CNC, perchenogion, rheolwyr a gweithredwyr coedwigoedd yn dilyn canllawiau i reoli coedwigoedd mewn dalgylchoedd wedi'u hasideiddio (Canllawiau Coedwig a Dŵr, 5^{ed} argraffiad).
- Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, diwydiant, sefydliadau trydydd sector a chyrrff gwyddonol i ddatblygu strategaeth glir ar gyfer asideiddio yng Nghymru.
- Mae CNC yn gweithio gydag ymchwilwyr i gyfleu tystiolaeth berthnasol ac atebion posibl, ac i nodi a llenwi bylchau tystiolaeth.
- Mae CNC yn datblygu asesiad risg asideiddio newydd i lywio'r ail Gynlluniau Rheoli Basn Afon.

Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Bydd CNC yn gweithio gydag eraill i ddatblygu strategaeth ar sail tystiolaeth yn ystod yr ail Gynlluniau Rheoli Basn Afon er mwyn sicrhau gwelliannau cynaliadwy mewn dalgylchoedd y mae asideiddio'n effeithio arnynt.

7. Coedwigaeth

Mae bron 5% o fethiannau'n gysylltiedig â gweithgareddau coedwigaeth. Er bod coetiroedd yn darparu buddion lu i'r amgylchedd dŵr, ac er bod adfer coetiroedd brodorol wrth ymyl nentydd yn flaenoriaeth, gall gweithgareddau coedwigaeth fasnachol niweidio'r amgylchedd dŵr. Yn ogystal ag asideiddio (mater 6), prif effeithiau coedwigaeth yw llygredd gwasgaredig (dŵr ffo gwaddodion yn ystod cynaeafu a phlannu), ceuffosydd ffordd sy'n ymyrryd â physgod yn mudo, ac effeithiau posibl defnyddio cypermethrin i reoli plâu.

Map o fethiannau dŵr wyneb



Beth ydym am ei gyflawni?

Mae rheoli coedwigaeth yn rhoi budd i'r amgylchedd dŵr ac yn cyflenwi gwasanaethau ecosystem fel llai o lygredd gwasgaredig, lleihau llifoedd llifogydd, dŵr yfed glân, cynefin i bysgod a bywyd gwyllt, a chysgod i liniaru effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae CNC a gweithredwyr coedwigaeth preifat yn cymryd camau i leihau risg llygredd.
- Mae CNC a gweithredwyr coedwigaeth preifat yn cynnig atebion lle mae eu gweithgareddau a'u seilwaith yn ymyrryd â physgod yn mudo neu'n cynyddu effeithiau asideiddio, er enghraifft caiff draeniau coedwig eu cysylltu'n uniongyrchol â chyrsgiau dŵr.
- Mae CNC, y sector coedwigaeth a sefydliadau trydydd sector yn plannu coed i adfer coetiroedd brodorol sydd o fudd i'r amgylchedd dŵr (e.e. lleiniau cysgodi ucheldirol strategol a choetiroedd parth torlannol).

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae CNC, perchenogion, rheolwyr a gweithredwyr coedwigoedd yn dilyn 5^{ed} Argraffiad y Canllawiau Coedwig a Dŵr, gan gynnwys y canllaw arfer i reoli coedwigoedd mewn dalgylchoedd sy'n sensitif i asid.
- Mae'r sector coedwigaeth yn ehangu plannu coed llydanddail brodorol mewn ardaloedd torlannol yn rhan o gynlluniau dylunio coedwig.
- Mae Llywodraeth Cymru'n targedu cymhellion Rheoli Coetir Glastir i sicrhau gwelliannau yn yr amgylchedd dŵr.
- Mae CNC yn adolygu cyngor ar gynllunio a dylunio draeniau a llwybrau coedwig.

Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Bydd CNC yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer safleoedd â blaenoriaeth ar Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru a'r safleoedd sy'n cael grantiau coetir.
- Bydd CNC yn datblygu strategaeth gyda'r sector coedwigaeth ar gyfer rheoli pum prif risg coedwigaeth fasnachol (asideiddio, gwaddodi, plaleiddiaid, rhwystrau rhag pysgod yn mudo a rheoli torlannol amhriodol).

8. Gwarchod rhag Llifogydd a Draenio Tir

Mae bron 3% o fethiannau'n gysylltiedig â draenio tir a strwythurau a gweithgareddau a fwriedir i warchod pobl ac eiddo rhag llifogydd. Er enghraifft, muriau llifogydd, glannau dyrchafedig, sianeli carthu, gwaredu llystyfiant parthau torlannol a draenio tir at ddefnydd amaethyddol.

Map o fethiannau dŵr wyneb



Beth ydym am ei gyflawni?

Hoffem barhau i ddatblygu dull ecosystem, cyfannol o reoli risg llifogydd, sy'n gwarchod pobl ac eiddo a hefyd yn rhoi buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Lle bo'n briodol, rydym am leihau risg llifogydd ag ymyriadau sydd o fudd i'r amgylchedd dŵr ac sy'n cyflenwi gwasanaethau ecosystem cyflenwol fel cyfleoedd hamdden, gwell ansawdd dŵr, a chynefin i bysgod a bywyd gwylt, ond sylweddolwn na fydd hyn yn bosibl ym mhobman. Mae enghreifftiau'n cynnwys creu coetir gwlyb a gwlypdir, adfer uwchdiroedd i leihau dŵr ffo, lleoedd gwyrdd trefol sy'n lleihau llifogydd wyneb, ac ailgysylltu afonydd â'u gorlifdiroedd.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae CNC a pherchenogion a gweithredwyr eraill yn asesu strwythurau gwarchod rhag llifogydd a gweithgareddau draenio tir i nodi cyfleoedd i liniaru effeithiau a sicrhau buddion.
- Mae Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a CNC yn sicrhau nad yw gweithrediadau a strwythurau arfaethedig i warchod rhag llifogydd yn gwaethygu pethau ac, os yw'n briodol, eu bod yn lliniaru'r sefyllfa.
- Mae CNC yn gweithio gyda Byrddau Draenio Mewnol, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, Awdurdodau Cynllunio Lleol a Pharciau Cenedlaethol i addasu gweithgareddau datblygu a draenio tir i leihau effeithiau a sicrhau buddion.
- Awdurdodau Cynllunio Lleol a Pharciau Cenedlaethol yw'r penderfynwyr sy'n sicrhau, gyda chynghor CNC a sefydliadau eraill, na cheir datblygiad amhriodol mewn ardaloedd risg llifogydd gan gynnwys gorlifdiroedd naturiol.

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae CNC, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol a thirfeddianwyr yn sicrhau bod adlinio rheoledig amddiffynfeydd rhag llifogydd yn sicrhau gwelliannau amgylcheddol lle'n briodol (e.e. creu morfeydd heli a gwlypdir).
- Bydd Cyrff Cymeradwyo SuDS (Cynlluniau Draenio Cynaliadwy) yn y dyfodol yn cynnig atebion sy'n lleihau dŵr ffo wyneb a risgiau llifogydd cysylltiedig ac yn gwella ansawdd dŵr.
- Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gynghori tirfeddianwyr a Byrddau Draenio Mewnol ar ddulliau cynaliadwy o ddraenio tir a rheoli uwchdiroedd.
- Mae adolygiad Byrddau Draenio Mewnol Llywodraeth Cymru a'i chyllid amaeth-amgylchedd yn cefnogi gweithgareddau rheoli tir sy'n lleihau risg llifogydd ac sydd o fudd i'r amgylchedd dŵr.
- Byddwn yn cyflenwi ein swyddogaethau Rheoli Risg Arfordirol a Llifogydd mewn modd sy'n cyfrannu at reoli'n ein hadnoddau naturiol yn gyfannol gan adlewyrchu'r dull ecosystem lle gallwn.

Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Bydd CNC a pherchenogion eraill wedi cydweithio i ddeall y rhesymau dros fethu a byddant wrthi'n nodi newidiadau posibl i strwythurau draenio tir a gwarchod rhag llifogydd.

9. Yr amgylchedd adeiledig: datblygu trefol a chluant

Mae tua 2% o fethiannau'n gysylltiedig â'r amgylchedd adeiledig, sy'n cynnwys addasiadau ffisegol i sianeli a glannau (e.e. glannau a cheuffosydd concrit), camgysylltiadau carthffosiaeth, a llygredd gwasgaredig o ffyrdd, seilwaith diwydiannol a domestig. Gall methiannau dan y mater hwn orgyffwrdd â'r rheini oherwydd rhwystrau artiffisial (mater 3) a gwarchod rhag llifogydd (mater 8).

Map o fethiannau dŵr wyneb



Beth ydym am ei gyflawni?

Hoffem leihau effaith negyddol datblygiad ddoe ac yfory ar yr amgylchedd dŵr. Hoffem osod y dull ecosystem a gwasanaethau ecosystem wrth wraidd cynllunio trefol. Drwy ddefnyddio systemau draenio cynaliadwy, adfer coridorau torlannol, darparu mannau gwyrdd cyhoeddus, hybu ymwybyddiaeth a newid ymddygiad, cydweithiwn er budd yr amgylchedd dŵr i wella ansawdd bywyd yn ardaloedd trefol Cymru.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae CNC yn cefnogi awdurdodau lleol, cymunedau a sefydliadau trydydd sector i adfer afonydd trefol drwy waredu coredu diangen, plannu coed torlannol, a chreu man 'gwyrd' (e.e. Grangetown Gwyrdach).
- Mae amrywiaeth o grwpiau'n cyflenwi ymgyrchoedd a dargedir at fusnes a diwydiant i hyrwyddo ymddygiad a chamau sy'n gwella'r amgylchedd dŵr (e.e. Nentydd Clir Abertawe).
- Mae awdurdodau lleol, cymunedau lleol a Dŵr Cymru'n datrys materion llygredd gwasgaredig a chamgysylltiad.
- Mae Awdurdodau Cynllunio Lleol yn ystyried Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn eu penderfyniadau cynllunio i warchod a gwella'r amgylchedd dŵr.
- Mae Asiantaethau Llywodraeth ar bob lefel yn cydweithio â datblygwyr i'w helpu i wreiddio gwasanaethau ecosystem wrth gynllunio a dylunio'r amgylchedd adeiledig (e.e. ymgorffori cynlluniau draenio cynaliadwy i leihau dŵr ffo trefol a gwella ansawdd dŵr).
- Mae CNC yn cefnogi'r trydydd sector i gyflenwi prosiectau hybu ymwybyddiaeth a newid ymddygiad (e.e. Ymgyrch Pysgodyn Melyn Cadwch Gymru'n Daclus)

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i hyrwyddo a gwreiddio Dylunio Trefol sy'n Sensitif i Ddŵr mewn rheoliadau adeiladu datganoledig a pholisïau cynllunio.
- Bydd datblygu byrddau cymeradwyo Cynlluniau Draenio Cynaliadwy (SuDS) yn helpu i roi cyngor cyson ar gyfer gweithgareddau cynllunio.
- Mae CNC yn gweithio gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) i ddatblygu canllawiau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr i awdurdodau lleol.

Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Byddwn wedi manteisio ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, cynllunwyr, datblygwyr, cwmnïau dŵr, rheolwyr tir (e.e. cymdeithasau tai), cymunedau ac eraill i ddatblygu a sicrhau atebion arloesol yn yr amgylchedd adeiledig.
- Byddwn wedi datblygu astudiaethau achos a thystiolaeth i lywio a hyrwyddo Dylunio Trefol Sensitif i Ddŵr yng Nghymru.

10. Tyniadau Dŵr Wyneb

Mae tua 2% o fethiannau'n gysylltiedig â thynnu dŵr at ddefnydd cartrefi, amaethyddiaeth, diwydiant a mordwyo.

Map o fethiannau dŵr wyneb



Beth ydym am ei gyflawni?

Hoffem sicrhau bod trwyddedau tynnu dŵr heddiw ac yfory'n gwarchod yr amgylchedd dŵr. Mae arnom eisiau cyflenwi ymyriadau (e.e. gwella cynefinoedd mewn sianeli) sy'n lliniaru effeithiau tynnu dŵr ar yr amgylchedd dŵr. Hoffem ddefnyddio dŵr yn fwy effeithlon er mwyn lleihau'r angen i dynnu dŵr ychwanegol yn y dyfodol.

Beth yw'r atebion lleol?

- Mae CNC yn nodi safleoedd y mae tynnu dŵr yn effeithio arnynt ac yn newid amodau trwydded yn rhan o'r rhaglen Adfer Tynnu Dŵr Cynaliadwy.
- Mae CNC yn gweithio gyda thynwyr dŵr i sicrhau cymaint o welliant â phosibl mewn safleoedd lle nad yw buddion ecolegol yr atebion arfaethedig yn cyfiawnhau'r buddsoddiad gofynnol.

- Mae CNC yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i sicrhau bod trwyddedau tynnu dŵr newydd yn gwarchod yr amgylchedd dŵr.
- Mae defnyddwyr dŵr yn cymryd camau arbed dŵr lle bo'n briodol (e.e. casglu dŵr glaw).
- Mae DCWW yn annog camau arbed dŵr drwy ymgyrchoedd gwybodaeth a thrwy osod mesuryddion dŵr yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr domestig.

Beth yw'r atebion strategol?

- Mae cwmnïau dŵr yn gweithio gyda CNC a'r Swyddfa Gwasanaethau Dŵr (OFWAT) i sicrhau cyllid am newidiadau trwydded gofynnol drwy'r broses Adolygu Prisïau.
- Mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddod â gweithgareddau tynnu dŵr sy'n eithriedig ar hyn o bryd dan reolaeth reoleiddiol.
- Bydd Strategaeth Ddŵr Llywodraeth Cymru sydd i ddod yn rhoi cyfeiriad strategol i gamau cydgysylltiedig i leihau'r dŵr a ddefnyddir yng Nghymru.

Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Bydd CNC wedi ymchwilio i bob ardal ddyfrol sy'n methu oherwydd tynnu dŵr. Bydd yr atebion a nodwyd yn cael eu blaenoriaethu i'w sicrhau yn ystod yr ail gylich o Gynlluniau Rheoli Basn Dŵr.
- Bydd CNC wedi newid pob trwydded tynnu dŵr lle mae risg o ddifrod yn safleoedd y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Trosolwg o Ddim Gwaethygu, Ardaloedd Gwarchoddedig a'r Gyfarwyddeb Llifogydd

Dim Gwaethygu

Gwarchod yr amgylchedd dŵr rhag gwaethygu yw un o egwyddorion allweddol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. I gyflawni hyn, rydym yn datblygu ein dealltwriaeth o'r pwysau sylweddol sydd ar waith heddiw ac a all fod ar waith yn y dyfodol. Mae rhywogaethau anfredorol ymledol yn enghraifft o bwysau sylweddol yng Nghymru, ac mae angen inni gasglu ein tystiolaeth o'u heffeithiau yn awr ac o'u heffeithiau posibl yn y dyfodol. Yn ystod y gwaith o ddatblygu'r ail Gynlluniau Rheoli Basn Afon, byddwn yn nodi pa gamau y mae angen inni eu cymryd i gwtogi cymaint â phosibl ar risg gwaethygu.

Ardaloedd Gwarchoddedig

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ymhlith nifer o Gyfarwyddebau Ewropeaidd sy'n gosod amcanion ar gyfer gwarchod ac adfer ecosystemau dyfrol, a sicrhau gwasanaethau ecosystem cysylltiedig â dŵr. Gelwir y safleoedd a ddynodwyd dan y Gyfarwyddebau hyn yn Ardaloedd Gwarchoddedig. Yn ôl Erthygl 4.2 yn y Gyfarwyddeb, "*Ile mae mwy nag un ... amcan ... yn berthnasol i ardal ddyfrol benodol, bydd y mwyaf caeth yn berthnasol.*"

Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi cydnabod bod angen integreiddio'n well y broses o gynllunio a chyflenwi'r Gyfarwyddebau hyn. Mae ffurfio CNC a ffocws Llywodraeth Cymru ar y dull ecosystem o ddatblygu cynaliadwy yn gyfle delfrydol i ateb yr her hon yng Nghymru.

Ar gyfer pob Ardal Warchoddedig, mae map yn dangos ardaloedd dyfrol sy'n cyd-daro â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Yn y mapiau, mae ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb honno wedi'u codio â lliw yn ôl statws:

gwyrdd = Potensial/Statws Ecolegol Da

coch = llai na Da

NID yw'r mapiau'n dangos a ydy Ardal Warchoddedig yn bodloni ei hamcanion penodol.

Mae'r mapiau hyn yn helpu i amlygu'r cyfleoedd a'r heriau ar gyfer integreiddio'r broses o gynllunio a chyflenwi Ardaloedd Gwarchoddedig yng Nghymru.


Bydd yn cymryd amser i gynllunio a chyflenwi mewn modd integredig ar draws Gyfarwyddebau cyflenwol. Am ei bod yn fach a chanddi un corff amgylcheddol, mae gan Gymru gyfle i 'arwain Ewrop' mewn cyflenwi integredig. Bydd angen inni oll gydweithio i gyrraedd y nod hwn.

Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed (Erthygl 7 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)

Mae Erthygl 7 y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn sefydlu Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed i sicrhau ansawdd dŵr yfed, i osgoi gwaethygu ansawdd dŵr, ac i leihau lefel/cost y driniaeth buro sy'n ofynnol wrth gynhyrchu dŵr yfed.

Yng Nghymru, mae 144 o ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyd-daro ag Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed; mae 92 o'r ardaloedd dyfrol hyn yn methu Potensial/Statws Ecolegol Da.

Statws ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd mewn Ardaloedd Gwarchoddedig Dŵr Yfed




Y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw

Mae'r Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw'n sefydlu Dyfroedd Pysgod Dŵr Croyw (FFW) i warchod neu wella ansawdd dŵr croyw i bysgod sy'n gydrannau pwysig o fioamrywiaeth frodorol neu bysgod y beirniadir eu bod yn ddymunol at ddibenion rheoli dŵr. Bydd y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw'n cael ei diddymu yn 2013, ac yna rhaid rhoi'r un lefel o warchodaeth i Ddyfroedd Pysgod Dŵr Croyw dynodedig ag a roir gan y Gyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw.

Yng Nghymru mae 540 o ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyd-daro â Dyfroedd Pysgod Dŵr Croyw, ac mae 338 o'r ardaloedd dyfrol hyn yn methu Potensial/Statws Ecolegol Da.

Statws ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd mewn Dyfroedd Pysgod Dŵr Croyw




Y Gyfarwyddeb Dŵr Pysgod Cregyn

Mae'r Gyfarwyddeb Dŵr Pysgod Cregyn yn sefydlu Dyfroedd Pysgod Cregyn (SW) i warchod ansawdd dŵr, a'i wella os oes angen, er mwyn cynnal bywyd a thyfiant pysgod cregyn (molysgiaid deuglawr a boldroediog) a chyfrannu at gynhyrchion cysylltiedig sy'n uniongyrchol fwytadwy gan bobl. Llwyddir i gydymffurfio drwy fodloni canllawiau safonau ansawdd dŵr. Bydd y Gyfarwyddeb Dŵr Pysgod Cregyn yn cael ei diddymu yn 2013, ac yna rhaid rhoi'r un lefel o warchodaeth i Ddyfroedd Pysgod Cregyn ag a roir gan y Gyfarwyddeb Dŵr Pysgod Cregyn.

Yng Nghymru, mae 25 o ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyd-daro â Dyfroedd Pysgod Cregyn; mae 15 o'r ardaloedd dyfrol hyn yn methu Potensial/Statws Ecolegol Da.

Statws ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd mewn Dyfroedd Pysgod Cregyn




Y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi

Mae'r Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi gyfredol yn sefydlu Dyfroedd Ymdrochi i warchod yr amgylchedd ac iechyd pobl wrth ymdrochi. O 2015, amcan y Gyfarwyddeb ddiwygiedig fydd diogelu, gwarchod a gwella ansawdd yr amgylchedd a gwarchod iechyd pobl drwy gyflenwi'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd gan y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi ddiwygiedig ofynion mwy caeth.

Yng Nghymru, mae 109 o ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyd-daro â Dyfroedd Ymdrochi; mae 83 o'r ardaloedd dyfrol hyn yn methu Potensial/Statws Ecolegol Da.

Statws ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd mewn Dyfroedd Ymdrochi / wrth ymyl Dyfroedd Ymdrochi




Y Gyfarwyddeb Nitradau

Amcanion y Gyfarwyddeb Nitradau yw lleihau llygredd dŵr a achosir gan nitradau o darddiadau amaethyddol ac atal llygredd pellach. Lle mae eu hangen, sefydlodd y Gyfarwyddeb Nitradau Barthau Perygl Nitradau yn cynnwys yr holl dir sy'n draenio i ddyfroedd llygredig, lle mae rhaid addasu arferion amaethyddol (e.e. cyfraddau lledaenu biswail) i leihau'r colledion nitrad i'r amgylchedd.

Yng Nghymru mae 25 o ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyd-daro â Pharthau Perygl Nitradau; mae 19 o'r ardaloedd dyfrol hyn yn methu Potensial/Statws Ecolegol Da.

Statws ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd mewn Parthau Perygl Nitradau



Y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol

Amcanion y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol yw gwarchod yr amgylchedd rhag effeithiau andwyol arllwysiadau dŵr gwastraff trefol o garthffosiaeth a tharddiadau diwydiannol eraill. Mae'r Gyfarwyddeb yn sefydlu Ardaloedd Sensitif i Faetholion lle mae tystiolaeth o ewtroffeiddio neu lle mae crynodiadau nitrad dyrchafedig yn effeithio ar dyniadau dŵr wyneb. Mae dynodiad yn mynnu bod camau'n cael eu cymryd i leihau a/neu atal llygredd pellach a achosir gan faetholion. Cyflawnir amcanion Ardaloedd Sensitif i Faetholion drwy sicrhau bod arllwysiadau o weithfeydd trin carthion yn bodloni safonau'r Gyfarwyddeb.

Yng Nghymru mae 19 o ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyd-daro ag Ardaloedd Sensitif o ran Maetholion; mae 15 o'r ardaloedd dyfrol hyn yn methu Potensial/Statws Ecolegol Da.

Statws ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd mewn Ardaloedd Sensitif i Faetholion




Y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar

Y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yw asgwrn cefn dull yr UE o warchod rhywogaethau a chynefinoedd mwyaf gwerthfawr Ewrop. Yr Ardaloedd Gwarchodedig a ddynodir dan y cyfarwyddebau hyn sy'n ffurfio rhwydwaith Natura 2000 (N2k). Hwyl yw'r offeryn canolog ar gyfer dod â rhywogaethau a chynefinoedd gwarchodedig i statws cadwraeth ffafriol. Nod y ddwy gyfarwyddeb hyn a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yw sicrhau ecosystemau dyfrol iach ac, ar yr un pryd, cydbwysedd rhwng gwarchod natur/dŵr a defnyddio adnoddau naturiol byd natur mewn modd cynaliadwy.

SYLWER: Mae llawer o synergeddau ar gyfer y ffordd y gweithredir y cyfarwyddebau hyn ac mae gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ofyniad penodol i gymryd camau ar safleoedd N2K sy'n dibynnu ar ddŵr. Yn yr adran ganlynol, amlinellir perthnasedd y Cyfarwyddebau Cynefinoedd ac Adar yng nghyd-destun camau/mesurau Atodiad D y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon.


Yng Nghymru, mae 520 o ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyd-daro â safleoedd N2k (Cynefinoedd); mae 348 o'r ardaloedd dyfrol hyn yn methu Potensial/Statws Ecolegol Da.

Statws ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd mewn safleoedd N2K (Cynefinoedd) sy'n dibynnu ar ddŵr



Yng Nghymru, mae 139 o ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyd-daro â safleoedd N2k (Adar), ac mae 97 o'r ardaloedd dyfrol hyn yn methu Potensial/Statws Ecolegol Da.


Statws ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr sydd mewn safleoedd N2K (Adar)



Cynnydd o ran cymryd camau Natura 2000 (N2k) yn ystod y Cynlluniau Rheoli Basn Afon cyntaf

Ar hyn o bryd, mewn 65 allan o 76 Ardal Cadwraeth Arbennig a 4 allan o 8 Ardal Gwarchodaeth Arbennig sydd â nodweddion sy'n dibynnu ar ddŵr, mae camau 'Atodiad D' y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr 'wedi dechrau' neu 'wedi'u cwblhau' er mwyn eu cynnal neu eu gwella i gyflwr sy'n gwella neu gyflwr ffafriol. Mae hyn yn gywerth â 23% (yn ôl ardal) o ardaloedd gwarchoddedig N2K Cymru.

Map o safleoedd N2K **nad** ydynt mewn cyflwr ffafriol



Beth ydym am ei gyflawni?

Dod â safleoedd N2K i gyflwr ffafriol drwy nodi a lleihau effeithiau o lygredd dŵr, rhywogaethau ymledol, rheoli risg llifogydd, defnydd tir a gweithgareddau eraill.

Beth yw'r atebion lleol?

- Bydd llawer o'r atebion i wella statws ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyfrannu at wella cyflwr safleoedd N2K.
- Bydd cynnwys partneriaid lleol drwy weithdai a mecanweithiau eraill yn helpu i egluro a blaenoriaethu unrhyw gamau N2K lleol penodol ychwanegol.
- Swyddogion CNC, awdurdodau lleol, cymunedau lleol, y trydydd sector a grwpiau eraill i nodi cyfleoedd prosiect cydweithredol i sicrhau canlyniadau lluosog ar gyfer camau Atodiad D y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a nodwyd.
- Bod timau gweithredol CNC a phartneriaid yn sicrhau bod camau Atodiad D arfaethedig yn briodol, wedi'u cynllunio, yn cael eu cyflenwi ac yna y rhoir gwybod amdanynt yn unol â gofynion adrodd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

Beth yw'r atebion strategol?

- Bydd llawer o atebion arfaethedig ar gyfer ardaloedd dyfrol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cefnogi camau sydd eu hangen i wella safleoedd N2K. Mae angen i CNC a phartneriaid eraill gydlynw'r broses o gynllunio a chyflenwi atebion strategol y maent yn gyfrifol amdanynt. Er enghraifft, mae CNC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i ddatrys materion llygredd gwasgaredig ac ansawdd aer strategol yn fodd o gymryd camau/mesurau Atodiad D perthnasol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn nhri Chynllun Rheoli Basn Afon Cymru.
- Bydd CNC yn gweithio gydag eraill – yn enwedig Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol – ac yn eu helpu i gymryd y camau N2K sylweddol a ddyrannir iddynt.
- Bydd CNC yn creu offer cefnogi rheoli data priodol i helpu partneriaid allweddol i ddeall yn gyflym beth sydd angen iddynt ei wneud ac i olrhain cynnydd cyflenwi a rhoi gwybod amdano.
- Nodi mecanweithiau cyllid cyfredol (e.e. gan gynnwys y Cynllun Datblygu Gwledig a rhaglenni eraill yr UE) y gall partneriaid eu

defnyddio, a datblygu dulliau cyllido arloesol newydd i gefnogi'r broses o gyflenwi prosiectau a chamau.

Pa mor bell a gyrhaeddwn erbyn 2015?

- Mae pob partner cyflenwi yn deall camau sy'n gysylltiedig â safleoedd N2k sy'n dibynnu ar ddŵr, wedi'u blaenoriaethu a'u cyflenwi, fel y'u nodir yn gamau/mesurau Atodiad D y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn nhri Chynllun Rheoli Basn Afon Cymru.
- Ein huchelgais yw bod holl fesurau Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr CNC a 'roddwyd ar waith' yn cael eu cwblhau erbyn 2015.

Y Gyfarwyddeb Llifogydd

Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd yn gofyn bod pob aelod-wladwriaeth yn sefydlu cylchoedd cynllunio ar gyfer rheoli risg llifogydd sy'n cydreddeg â'r rheini a sefydlwyd ymlaen llaw i'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r Rheoliadau Risg Llifogydd yn gweithredu gofynion y Gyfarwyddeb Llifogydd fel bod gofyniad cyfreithiol i CNC ac Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol baratoi Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd (FRMP) erbyn mis Rhagfyr 2015. Mae gofyn i CNC baratoi Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd ar gyfer Cymru gyfan gan ymdrin â llifogydd o'r prif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr. Ar gyfer y cylch cynllunio cyntaf hwn, dim ond mewn Ardaloedd Risg Llifogydd y mae gofyn i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol baratoi Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd, lle nodwyd bod risg llifogydd o darddiadau lleol (e.e. dŵr wyneb) yn risg sylweddol yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth. Mae gofyn hefyd i CNC adolygu Cynlluniau Rheoli Risg Llifogydd yr Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol cyn cydlynu a chyhoeddi'r holl gynlluniau ar yr un raddfa ofodol â Chynlluniau Rheoli Basn Afon (h.y. Ardaloedd Basn Afon).